Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Coach House Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 07 Tachwedd 2023

Dyddiad cyhoeddi: 07 Chwefror 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-83577-559-2

© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........................................................5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........................................................6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........................................................9

- Ansawdd Profiad y Claf ........................................................9
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........................................................13
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........................................................19

4. Y camau nesaf ........................................................22

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ............... 23

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........................................................24

Atodiad C – Cynllun gwella ........................................................25

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Coach House Dental Care ar 7 Tachwedd 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 28 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Coach House Dental Care yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda neu'n dda iawn.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys mannau penodol i'r cleifion gael sgyrsiau preifat â'r staff
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar mewn deintyddfeydd a oedd yn gwarchod eu hurddas
- Roedd safle'r practis yn hygyrch i bawb.

## Darparu  Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Coach House Dental Care yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion.

Roedd y practis mewn cyflwr da iawn ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân iawn ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Roedd y tîm deintyddol yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos ei fod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis wedi'i orffen i safon uchel.
- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Dwy ystafell ddihalogi benodedig
- Roedd archwiliadau o ansawdd da wedi cael eu cwblhau
- Roedd trefniadau diogelu da ar waith ac roedd tri aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel 3.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cwblhau'r asesiadau risg ymbelydredd a chynnal gwiriadau sicrhau ansawdd o'r cyfarpar digidol
- Cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd cyfarpar pelydr-X bob chwarter a chwblhau adnodd gwella ansawdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio
- Cynnal archwiliad o'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion clinigol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir yn Coach House Dental Care .

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl ac i'r practis.

Gwelsom fod y tîm staff yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd a'u bod yn ymrwymedig i roi gofal o safon uchel i'r cleifion.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rolau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod pob aelod o'r staff, gan gynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm
- Roedd ffeiliau'r staff yn cael eu cynnal yn dda iawn
- Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant perthnasol ac roeddent yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cwblhau pecyn cymorth rhoi'r gorau i smygu Addysg a Gwella Iechyd Cymru a rhagnodi gwrthfiotigau.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Roedd sylwadau'r cleifion yn gadarnhaol iawn a dywedodd y cleifion fod y gwasanaeth yn dda iawn neu'n dda.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion roedd y canlynol:

*"Practis deintyddol ardderchog."*

*"Fel cyn-nyrs ddeintyddol, allwn i ddim dod o hyd i unrhyw feiau yn y practis."*

*"Rwy'n teimlo'n gwbl gyfforddus ac yn teimlo fy mod i mewn dwylo da. Mae'r deintydd yn wych, mae'n bleser dod i'w weld, rwy'n ymddiried ynddo."*

*"Mae'r practis deintyddol hwn yn dda iawn ac rwy'n teimlo fy mod i'n cael gofal da iawn."*

*"Roedd staff y dderbynfa yn barod iawn i helpu ac roedd fy neintydd, sef dynes, a'i chynorthwyydd yn hyfryd, ac yn gwneud gwaith da."*

*"Maen nhw wedi bod yn ardderchog drwy gydol yr holl driniaeth a gefais."*

*"Deintyddfa ffantastig."*

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r staff yn neilltuol. Yr unig gŵyn sydd gennyf yw'r amser y mae'n rhaid i chi ei aros am apwyntiad, ond mae'r practis yn ardderchog os ydych mewn poen. Maent yn gallu eich gweld ar yr un diwrnod. Mae gen i ofn deintyddion, ond maent yn dda iawn ac yn amyneddgar, sy'n gwneud i mi deimlo'n gyfforddus."*

### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

**Hybu Iechyd**
Roedd y deunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Felly, roedd y cleifion yn gallu cael gafael ar wybodaeth a allai eu helpu i gymryd camau drostynt eu hunain i ofalu am hylendid y geg.

Gwelsom arwyddion 'Dim Smygu' yn y practis a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Roedd rhestrau prisiau hefyd wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal aros ac yn y dderbynfa.

Gwelsom arwyddion clir a oedd yn nodi sut i gysylltu â'r practis y tu allan i oriau.

**Gofal Urddasol a Pharchus**
Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys mannau penodol i'r cleifion gael sgyrsiau preifat â'r staff.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch.

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau a oedd ar gael iddynt o ran y driniaeth roedd angen iddynt ei chael. Dywedodd pob claf wrthym hefyd fod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall. Dywedodd y cleifion wrthym:

> *"Mae'r practis hwn yn ardderchog. Mae fy nheulu cyfan yn mynychu'r practis hwn ac mae pawb o'r un farn. Ni waeth pa driniaeth y byddaf yn ei chael, rwy'n cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arna i. Rwy'n hyderus i ofyn cwestiynau. Mae fy neintydd yn gwneud mwy na digon i sicrhau fy mod i'n deall. Rwy'n glaf nerfus. Mae'r practis hwn bob amser yn lân ac yn groesawgar"*
>
> *"Bob tro'n broffesiynol, yn ofalgar iawn ac yn ystyriol. Rwy'n glaf nerfus ac maent bob amser yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus, nhw yw'r gorau."*
>
> *"Rwyf wedi bod yn dod yn amlach ers sawl blwyddyn ac mae'r deintydd a'r cynorthwyydd yn broffesiynol iawn ac yn gwrando ar fy mhryderon."*

Gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus ac roeddent yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn barod i'w helpu. Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau.

Gwelwyd bod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos wrth ystafell y staff.

**Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**
Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar y wefan, ei dudalen cyfryngau cymdeithasol ac yn cael ei harddangos ger y brif fynedfa, yr ardal aros a'r dderbynfa.

Mae gan y practis daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol o dan y rheoliadau.

Mewn ymateb i holiadur AGIC, dywedodd pob claf wrthym ei fod yn cael digon o wybodaeth er mwyn deall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, a bod ei hanes meddygol yn cael ei wirio cyn cael triniaeth.

Roedd pob claf yn cytuno ei fod yn cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a bod y costau yn cael eu nodi'n glir cyn cael triniaeth.

Gwelsom fod gwaith cynllunio ac opsiynau o ran triniaethau yn cael eu cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

## Amserol

**Gofal Amserol**
Gwelsom fod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol bob amser yn cael ei roi mewn modd amserol. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion (26/28) a gwblhaodd yr holiadur ei bod yn hawdd iawn neu'n hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt, ond dywedodd y ddau glaf arall nad oedd yn hawdd iawn.

Dywedodd llawer o'r cleifion (22/28) a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd ganddynt broblem ddeintyddol frys a dywedodd y chwe chlaf arall nad oeddent yn gwybod sut i wneud hynny. Roedd rhif mewn argyfwng ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar y cleifion. Roedd y manylion cyswllt yn cael eu harddangos ger y brif fynedfa, ar wefan y practis, ar neges peiriant ateb ac yn y daflen wybodaeth i gleifion.

## Teg

**Cyfathrebu ac Iaith**
Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff yn siarad Cymraeg yn y practis a'u bod yn gwisgo brand Iaith Gwaith i ddangos hyn. Mae brand Iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy nodi siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, mae rhai o aelodau o staff y practis yn gallu siarad Pwyleg a Lithwaneg â'r cleifion hefyd.

Dywedwyd wrthym hefyd, pe byddai angen, y gallai'r staff ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu i'w helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth i gleifion, gan gynnwys taflen wybodaeth i gleifion a pholisi cwynion. Roedd yr holl wybodaeth ar gael yn Saesneg, ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth ar gael yn Gymraeg. Dywedodd y staff wrthym y gellid trefnu i ddarparu'r wybodaeth mewn fformatau gwahanol pe bai claf yn gofyn am hynny.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r practis gysylltu â'r bwrdd iechyd lleol er mwyn cael cyngor a chymorth i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith yn unol â safonau'r Gymraeg[1].

**Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gael cyngor a chymorth addas i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.**

**Hawliau a Chydraddoldeb**
Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur nad oedd wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio ac roedd yn well gan un claf beidio â dweud.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion (26/28) a gwblhaodd yr holiadur fod y safle yn hygyrch, dywedodd un claf wrthym fod y practis yn rhannol hygyrch ac nid oedd un claf yn siŵr. Roedd mynediad da i'r adeilad ac roedd digon o leoedd parcio i geir. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion â phroblemau symudedd gyrraedd y dderbynfa, yr ardal aros, y toiledau a'r tair deintyddfa ar y llawr gwaelod.

[1] https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-mewn-gofal-sylfaenol

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli Risg**
Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yr adeilad mewn cyflwr da iawn, yn fewnol ac yn allanol, i bob golwg. Gwelsom fod pob ardal yn lân iawn ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster Iechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos.

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, yn ogystal ag amrywiol asesiadau risg, megis tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch. Roedd yr holl asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben, a gwelsom ddigon o ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a'r cleifion wedi cael eu hystyried.

**Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**
Roedd gan y practis ddwy ardal benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Roedd y ddau gyfleuster yn lân iawn ac yn drefnus. Roeddent yn cynnwys cyfarpar addas ac roeddent yn daclus.

Roedd y trefniadau dihalogi yn dda. Dangosodd y staff y broses ddihalogi i ni a nodwyd y canlynol gennym

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offer mewn cyflwr da.
- Roedd eitemau o offer yn cael eu storio'n briodol ac roedd dyddiad wedi'i nodi arnynt.
- Roedd digon o gyfarpar diogelu personol i ddiogelu'r staff rhag anaf a/neu haint.
- Roedd gwiriadau cynnal a chadw dyddiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi.

- Roedd cynwysyddion storio'r offer yn gadarn ac yn ddiogel.

Gwelsom fod y gweithdrefnau a oedd ar waith i lanhau, sterileiddio a storio offer yn unol â'r canllawiau arferion gorau diweddaraf.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cynnal gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer dda am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr. Roedd yr archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau a gwelsom dystiolaeth fod y cynllun gwella dilynol wedi cael ei roi ar waith.

Roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith i archwilio'r cyfarpar sterileiddio. Roedd cofnodlyfr yn cael ei ddefnyddio i gofnodi gwiriadau diogelwch ar yr awtoclaf ar ddechrau a diwedd y dydd.

Roedd gan bob deintyddfa restr wirio ar gyfer trefniadau glanhau, a gwelsom eu bod yn cael eu cwblhau'n rheolaidd.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y practis deintyddol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn. Dywedodd un claf wrthym:

> "Maen nhw'n ofalus iawn yma."

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr arweinydd atal a rheoli heintiau wedi cael ei enwi yn y polisi. Aeth y rheolwr cofrestredig ati i ddiweddaru'r polisi ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Roedd gan y practis drefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau a achoswyd gan eitemau miniog. Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu diogelu rhag feirysau a gludir yn y gwaed. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i ystyried gosod y blychau offer miniog (gwastraff peryglus) yn sownd yn eu lle gerllaw'r ardal lle defnyddir offer miniog meddygol, er mwyn atal unrhyw ollyngiadau. Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad i ddangos bod pob blwch offer miniog wedi cael ei osod yn sownd wrth y wal.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi'i ddidoli a'i osod yn y bagiau/cynwysyddion priodol yn unol â'r dull gwaredu cywir. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu y dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i fin gwastraff fferyllol ar gyfer meddyginiaethau a chyffuriau brys heb eu defnyddio / y mae'r dyddiad ar gyfer eu defnyddio wedi mynd heibio gael ei ychwanegu at gontract gwastraff clinigol y practis, ac aeth y rheolwr cofrestredig ati i drefnu hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

**Rheoli Meddyginiaethau**
Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR). Roedd gan y practis bedwar swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd system effeithiol ar waith i archwilio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.

Gwelsom fod padiau presgripsiynau yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd polisi ar waith ar gyfer archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai'n rhaid iddynt roi gwybod am ddigwyddiad a oedd yn ymwneud â meddyginiaeth.

**Diogelu Plant ac Oedolion**
Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisïau yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen i un aelod o'r staff adnewyddu ei hyfforddiant, ond fod yr unigolyn hwnnw ar gyfnod salwch tymor hir ar y pryd. Cawsom sicrwydd gan y rheolwr cofrestredig fod cynlluniau ar waith i'r aelod o staff gael hyfforddiant pan fyddai'n dychwelyd. Roedd dau glinigydd a'r rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant diogelu lefel 3. Roedd y rheolwr cofrestredig a'r prif ddeintydd wedi cael eu henwebu i fod yn arweinwyr diogelu. Roedd y staff yn gallu trafod y polisïau a'r gweithdrefnau, a senarios amrywiol, â ni yn fanwl.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon ynglŷn â gwaith yn uniongyrchol gyda'r rheolwr cofrestredig a'r prif ddeintydd ac roeddent yn hyderus iawn y byddent yn gweithredu ar unrhyw bryderon.

Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban ar waith yn y practis.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau cyn cyflogi a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a / neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhawyd gennym fod gan bob aelod perthnasol o'r staff wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**
Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus iawn, yn lân ac yn daclus ac roeddent wedi cael eu gorffen i safon dda.

Gwelsom fod ffolder Diogelu rhag Ymbelydredd yn y practis. Gwelsom fod yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd unrhyw asesiadau risg ymbelydredd na gwiriadau sicrhau ansawdd ar gyfer y cyfarpar digidol wedi cael eu cwblhau. Gwnaethom awgrymu y dylai'r rheolwr cofrestredig gwblhau'r ffolder Diogelu rhag Ymbelydredd ar-lein gyda'i Gynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd. Mae'r fersiwn ar-lein o'r ffolder Diogelu rhag Ymbelydredd yn cynnwys yr holl asesiadau risg ymbelydredd a'r holl wiriadau sicrhau ansawdd y gall y practis eu defnyddio ar gyfer y cyfarpar digidol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff asesiadau risg ymbelydredd a gwiriadau sicrhau ansawdd ar gyfer y cyfarpar digidol eu cwblhau.**

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf.

Gwelsom nad oedd y practis wedi cynnal unrhyw archwiliadau sicrhau ansawdd chwarterol o'r cyfarpar pelydr-X, nac wedi defnyddio Adnodd Gwella Ansawdd AaGIC ar gyfer Ymbelydredd Ïoneiddio.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y practis yn cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd chwarterol o'r cyfarpar pelydr-X chwarterol ac yn cwblhau Adnodd Gwella Ansawdd AaGIC ar gyfer Ymbelydredd Ïoneiddio.**

## Effeithiol

### Gofal Effeithiol

Roedd trefniadau ar waith i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol er mwyn atal achosion o dynnu'r dant anghywir. Yn ogystal â'r weithdrefn, gwnaethom awgrymu y dylai'r rheolwr cofrestredig osod siart lif Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol ym mhob deintyddfa. Cawsom hysbysiad yn syth ar ôl yr arolygiad i gadarnhau bod siart lif Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol wedi cael ei gosod ym mhob deintyddfa.

### Cofnodion Cleifion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion deg claf. Ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion clinigol da yn cael eu cynnal, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion.

Roedd y cofnodion a welsom wedi'i deilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros yr apwyntiad. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Fodd bynnag, nodwyd rhai bylchau. Er enghraifft, nid oedd pob Archwiliad Periodontol Sylfaenol wedi'u cofnodi (3/10), nid oedd asesiad risg wedi'i gofnodi yn seiliedig ar geudodau, perio, traul dannedd a chanser y geg (2/10), ac nid oedd cyfiawnhad dros gynnal archwiliad pelydr-X (4/6) na chanfyddiadau clinigol wedi'u cofnodi (2/6).

Gwnaethom drafod ein canfyddiadau â'r rheolwr cofrestredig, a gwnaethom awgrymu y dylai'r practis oruchwylio'r broses o gadw cofnodion yn well. Rydym yn argymell y dylai'r practis gynnal archwiliad blynyddol o'r broses cadw cofnodion.

**Mae angen i'r practis gynnal archwiliad o'r broses cadw cofnodion a rhoi copi o'r archwiliad a'r cynllun gweithredu dilynol i AGIC.**

## Effeithlon

### Effeithlon

Gwelsom fod y cyfleusterau yn briodol ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol a bod prosesau ar waith i weithredu'r practis yn effeithlon.

Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod y cyfleusterau yn y practis yn addas iddynt gyflawni eu dyletswyddau a bod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Dywedwyd wrthym fod atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn cael eu gwneud yn electronig, ac felly bod modd rhannu gwybodaeth yn effeithlon. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai staff y practis yn mynd ar drywydd unrhyw atgyfeiriadau yr ystyriwyd eu bod yn rhai brys, fel amheuon o ganser y geg, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael apwyntiad amserol.

Lle bynnag y bo'n bosibl, roedd y practis yn trefnu i weld cleifion yr oedd angen gofal a thriniaeth frys arnynt o fewn oriau agor arferol er mwyn atal sefyllfa lle y byddai'n rhaid i'r cleifion fynychu gwasanaethau gofal brys neu wasanaethau y tu allan i oriau.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**
Nodwyd gennym fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir ar waith yn y practis.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblem neu bryder yn uniongyrchol â'r rheolwr cofrestredig a'r prif ddeintydd a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn yn eu rolau. Roedd y staff yn canmol y Rheolwr Cofrestredig a'r Prif Ddeintydd yn fawr iawn. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael cymorth ardderchog gan y tîm rheoli yn ystod pandemig COVID-19, a'u bod yn teimlo'n ddiogel iawn yn gweithio yn y practis.

Roedd y staff yn glir iawn ac yn wybodus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau.

Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad cyhoeddi a/neu adolygu, gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod arferion yn gyfredol.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth drwy gyfarfodydd tîm ar gyfer y practis cyfan. Roedd amrywiaeth o bynciau perthnasol yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hyn ac roedd cofnodion yn cael eu cadw. Yn ogystal, gwelsom fod y staff yn cael cylchlythyrau rheolaidd.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith i bob un ohonynt. Roedd gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol hefyd.

## Y Gweithlu

**Gweithlu Medrus a Galluog**
Roedd gan bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis gontract cyflogaeth. Gwelsom hefyd fod rhaglen sefydlu ar waith, a oedd yn cwmpasu hyfforddiant a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol. Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau staff hefyd yn cael eu cynnal. Roedd yn gadarnhaol nodi bod arfarniadau yn gyfredol ac yn gynhwysfawr.

Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i gadarnhau eu bod yn parhau i fod yn addas ar gyfer eu rolau. Roedd tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar ffeil fel sy'n ofynnol. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau fel y'u nodwyd yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith. Roedd hyn ar gael i bob claf yn yr ardal aros. Roedd manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac yn y datganiad o ddiben. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y weithdrefn yn cynnwys manylion am gymorth eirioli. Cawsom hysbysiad a thystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad i ddangos bod y weithdrefn gwyno wedi cael ei diweddaru.

Gwnaethom drafod dulliau'r practis o gael adborth gan gleifion, sef blwch sylwadau a holiaduron yn yr ystafell aros. Gall y cleifion hefyd roi adborth drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, cawsom wybod gan y rheolwr cofrestredig na chafwyd unrhyw adborth gan gleifion yn ddiweddar. Gwnaethom awgrymu y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried adleoli'r holiaduron a'r blwch sylwadau i fan mwy amlwg yn y practis. Gwnaethom hefyd argymell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi system addas ar waith i ddangos i'r cleifion pa gamau a gymerwyd mewn ymateb i'w hadborth.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried adleoli'r holiaduron i gleifion a'r blwch sylwadau i fan mwy amlwg yn y practis a rhoi system addas ar waith i ddangos i'r cleifion pa gamau a gymerwyd mewn ymateb i'w hadborth.**

Gwelsom fod gan y practis bolisi ar y Ddyletswydd Gonestrwydd, a oedd yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r staff fel yr argymhellir gan Ganllawiau Statudol y Ddyletswydd Ansawdd (2023). Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gwybod ac yn deall eu cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi derbyn ac wedi trafod y canllawiau cenedlaethol mewn cyfarfod tîm ond nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant. Gwnaethom argymell i'r rheolwr cofrestredig y dylai pob aelod o'r staff gael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. Cawsom hysbysiad a thystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad i ddangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.

## Gwybodaeth

**Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol**

Roedd systemau cyfathrebu addas ar waith er mwyn helpu i weithredu'r practis.

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol, gan sicrhau diogelwch data personol. Roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd. Roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac nid oedd modd i neb heb awdurdod eu gweld. Roedd polisi diogelu data ar waith i hysbysu'r staff am yr hyn a oedd yn ofynnol ganddynt.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

**Gweithgareddau Gwella Ansawdd**

Roedd yn amlwg iawn bod y staff yn y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Cawsom enghreifftiau o archwiliadau amrywiol a oedd yn cael eu cynnal fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau pelydr-X, atal a rheoli heintiau a dihalogi (cydymffurfio â chanllawiau WHTM 01-05), glanhau a mynediad i bobl anabl. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y practis wedi cynnal unrhyw archwiliadau rhoi'r gorau i smygu. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gwblhau pecyn cymorth rhoi'r gorau i smygu ac archwiliad rhagnodi gwrthfiotigau Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

**Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r practis gwblhau pecyn cymorth rhoi'r gorau i smygu ac archwiliad rhagnodi gwrthfiotigau Addysg a Gwella Iechyd Cymru.**

Roedd y tîm deintyddol yn rhagweithiol, yn wybodus, yn broffesiynol ac yn dangos ei fod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

## Dull Systemau Cyfan

**Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymgysylltu â gwasanaethau eraill.

Dywedwyd wrthym fod system electronig yn cael ei defnyddio i atgyfeirio cleifion, gan gynnwys y rhai hynny yr oedd angen eu hatgyfeirio ar frys, at wasanaethau gofal iechyd eilaidd. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai fferyllwyr yn cysylltu â'r practis i drafod a chadarnhau presgripsiynau a roddwyd gan y deintyddion.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.** | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Coach House Dental Care

## Dyddiad yr arolygiad: 07 Tachwedd 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn.** | | | | | |
| | | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Coach House Dental Care**

**Dyddiad yr arolygiad: 07 Tachwedd 2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae ein canfyddiadau yn dangos mai dewis iaith y cleifion oedd Saesneg. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i gleifion ofyn i gael y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. | Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gael cyngor a chymorth addas gan y Bwrdd Iechyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith'. | Safon Ansawdd - Teg | Mae staff y dderbynfa bellach yn cyfarch pob claf yn Gymraeg a chaiff dewis iaith y claf ei gofnodi ar ei nodiadau.<br><br>Rydym wedi cyflwyno ffolderi gwybodaeth i gleifion Cymraeg a Saesneg ar wahân yn ein hystafelloedd aros.<br><br>Rydym wedi cysylltu â 'Helo Blod' i gyfieithu deunyddiau ychwanegol i'r Gymraeg, er enghraifft | Emma Hampshire<br><br>Emma Hampshire<br><br>Emma Hampshire | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | taflenni cyngor i gleifion ar dynnu dannedd. | | |
| Mae ein canfyddiadau yn dangos nad yw'r practis wedi cwblhau'r asesiad risg ymbelydredd nac wedi cwblhau'r gwiriadau sicrhau ansawdd ar gyfer y cyfarpar digidol. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff asesiadau risg ymbelydredd a gwiriadau sicrhau ansawdd ar gyfer y cyfarpar digidol eu cwblhau. | Safon Ansawdd - Diogel<br><br>IR(ME)R 2017 | Cafodd yr Asesiadau Risg Ymbelydredd eu cwblhau yn syth ar ôl ein harolygiad.<br><br>Caiff y gwiriadau sicrhau ansawdd ar gyfer y cyfarpar digidol eu cynnal yn ystod y 4 wythnos nesaf | Emma Hampshire<br><br>Roger Handley / Emma Hampshire | Wedi'i gwblhau<br><br>31/01/2024 |
| Mae ein canfyddiadau yn dangos nad yw'r practis wedi cynnal unrhyw archwiliadau sicrhau ansawdd chwarterol o'r cyfarpar pelydr-X nac wedi cwblhau Adnodd Gwella Ansawdd AaGIC ar gyfer Ymbelydredd Ïoneiddio. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd chwarterol o'r cyfarpar pelydr-X a'i fod wedi cwblhau Adnodd Gwella Ansawdd AaGIC ar gyfer Ymbelydredd Ïoneiddio. | Safon Ansawdd - Diogel<br><br>IR(ME)R 2017 | Cynhaliwyd Archwiliad o Ansawdd Radiograffau a rhoddwyd system ar waith i'w gwblhau bob 3 mis.<br><br>Rydym wedi cwblhau Adnodd Gwella Ansawdd Addysg a Gwella Iechyd | Emma Hampshire<br><br>Emma Hampshire | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cymru ar gyfer Ymbelydredd Ïoneiddio | | |
| **Nodwyd sawl bwlch yng nghofnodion clinigol y cleifion a allai gael effaith ar ofal cleifion.** | Mae angen i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad o'r broses cadw cofnodion a rhoi copi o'r archwiliad a'r cynllun gweithredu dilynol i AGIC. | Safon Ansawdd - Effeithiol<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 20 | Bydd Archwiliad Clinigol yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl a byddwn yn rhoi copi ohono a'r cynllun gweithredu i AGIC | Emma Hampshire | 31/01/2024 |
| **Mae ein canfyddiadau yn dangos na chaiff dadansoddiadau o adborth cleifion eu cyhoeddi ac felly nad yw'r cleifion yn gwybod pa gamau a gymerwyd gan y practis.** | Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried adleoli'r holiaduron i gleifion a'r blwch sylwadau i fan mwy amlwg yn y practis a rhoi system addas ar waith i ddangos i'r cleifion pa gamau a gymerwyd mewn ymateb i'w hadborth. | Galluogwr - Dysgu, gwella ac ymchwil<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 16 | Rydym wedi symud ein blwch 'Holiaduron i Gleifion a Sylwadau' o'r ystafell aros ac wedi ei osod wrth ddesg y dderbynfa.<br><br>Rydym bellach wedi rhoi poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni wrando' ym mhob ystafell aros er mwyn i'r cleifion gael gwybod am y newidiadau a wnaed gennym yn dilyn ceisiadau ganddynt. | Emma Hampshire<br><br>Emma Hampshire | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ein canfyddiadau yn dangos nad yw'r practis wedi cwblhau archwiliad CAPRO ar gyfer rhagnodi gwrthfiotigau na'r archwiliad rhoi'r gorau i smygu.** | Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r practis gwblhau pecyn cymorth rhoi'r gorau i smygu ac archwiliad rhagnodi gwrthfiotigau Addysg a Gwella Iechyd Cymru. | Galluogwr - Dysgu, gwella ac ymchwil<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 16 | Rydym wedi cofrestru ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gwblhau'r ddau archwiliad. Rydym yn gobeithio cyflawni hyn erbyn 31/03/2024<br><br>Mae aelodau'r tîm wedi atgoffa eu hunain o fanylion Ymyriadau Cryno er mwyn paratoi ar gyfer cwblhau'r archwiliad rhoi'r gorau i smygu | Emma Hampshire<br><br>Emma Hampshire | 31/03/2024<br><br>Wedi'i gwblhau |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Emma Hampshire**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 05/01/2024**